Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher, Ionawr 9fed, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00 pm

Presennol: Y Maer Cyng Richard Wallace, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Fran Murphy, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Christopher Parish Des Davies (Swyddog Technegol) Roger Phillips Clerc y Dref.

Ymddiheuriadau Y Dirprwy Faer Cyng Edward Thomas, Cyng Roy Davies.

Cof 229/ Ionawr/ 08 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/18006 Dymchwel ac adeiladu lle ar gyfer cegin newydd. Adeiladu portsh wrth y fynedfa i edrych yn debyg i'r gwreiddiol. Llunio orendy. Tynnu talcen sef to yr adain Fictoraidd. Gwaith adnewyddu yn Llwynhelig. Adeilad rhestredig

E/18009 Estyniad a newidiadau yn Llwynhelig.
Sylw : Dim gwrthwynebiad.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater, y dylai'r Cyngor ofyn am ganiatâd i fynd ar ymweliad safle â'r anheddle dan sylw gan ei fod o ddiddordeb hanesyddol mawr i'r Dref. Cymerwyd pleidlais ar y cynnig gan fynd o blaid y cynnig tair pleidlais i ddwy. Bydd y Clerc yn cysylltu ag adran Gynllunio CSC.

E/18013 Estyniad cegin un llawr yn 25, Heol Diana
Sylw : Dim gwrthwynebiad, ond gan mai dyma'r eiddo cyntaf yn y stryd i ofyn am estyniad tebyg i hwn, fe allai osod cynsail.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins bod y Pwyllgor Cynllunio yn cynnal ymweliad safle. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Cafwyd pleidlais a methodd y cynnig tair pleidlais i ddwy.

E/18025 Gwifren uwchben. Adnewyddu tua 29km o 11,000 folt i'r wifren uchod sydd ar bolion pren.
Sylw : Dim gwrthwynebiad

Cof 230 / Ionawr / 08 Penderfyniadau ar Geisiadau Cynllunio

Caniatawyd y cais cynllunio canlynol gan Bwyllgor Cynllunio CSC.
E/17677 Blaen siop newydd yn 131, Heol Rhosmaen.

Cof 231 / Ionawr/ 08 Ni Thynnwyd unrhyw Gynllunio yn ôl.

Cof 232/ Ionawr / 08 Cludiant a Phriffyrdd

1. Richard Davies parth. Mynegi pryder ynglŷn â'r mesurau arafu traffig yn Adeiladau'r Banc allai achosi lleithder yn ei eiddo. Argymhellwyd bod y Clerc yn ateb gan nodi nad

yw'r Cyngor yn ymwybodol fod yna unrhyw newidiadau strwythurol yn cael eu gwneud i'r stryd, ond yn gobeithio y byddai ei lythyr at CSC yn dwyn ymateb positif i'w bryderon.

2. E bost gan John McEvoy yn cadarnhau dyddiad newydd ar gyfer cyfarfod i drafod parc bysiau posib yn Stryd y Brenin. Cytunwyd y dylai'r Maer Cyng Richard Wallace a'r Cyng Colin Jenkins gynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod ar Chwefror 22ain, 2008 am 12canol dydd.

Cof 233 / Ionawr / 08 Trwyddedu – Re. 44, Heol Rhosmaen

Derbyniwyd llythyron gan adran trwyddedu CSC a gan gyfreithwyr Morgan Roberts sy'n cynrychioli'r ymgeiswyr, yn rhoi manylion o gais diwygiedig. Cytunwyd y dylid ysgrifennu at yr Adran Drwyddedu yn nodi fod y Cyngor yn falch bod yr ymgeisydd wedi gwneud consesiynau. Fodd bynnag teimlwyd y dylai'r oriau agor fod tan 11pm ddydd Sul i ddydd Iau a than 12canol nos dydd Gwener a dydd Sadwrn.

Cof 234 / Ionawr /08 Adroddiad Llwybrau Troed.

1. Adroddodd y Swyddog Technegol bod wyneb y bont siglo wedi gwella, ond bod ochrau'r bont yn parhau i fod mewn cyflwr peryglus. Gofynnwyd iddo fonitro unrhyw waith atgyweirio yn y dyfodol.
2. Dangosodd Mr Davies ffotograffau o Lwybr Troed Crug Manor a lle y mae'r llwybr wedi'i gau. Argymhellwyd bod y Clerc yn ysgrifennu yn gofyn i Caroline Ferguson pam fod y rhybuddion gwyro heb eu cyflwyno a pham nad yw'r gwyriad hyd yn hyn wedi'i gyfeirio.

Cof 235 / Ionawr / 08 Gohebiaeth

1. Cyfarfod fforwm Mynediad Agored Sir Gaerfyrddin 10.1.08. Nodwyd.
2. Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cambria yn gofyn am ganiatâd i wneud mân newidiadau i wal yr ystafell archif er mwyn sicrhau bod y lefelau lleithder yn iawn. Gofynnwyd i'r Swyddog Technegol gydweithio â Marion Page yn Cambria.
3. Seminar Cynllunio a drefnwyd gan Un Llais Cymru yng Nghaerfyrddin ar 13eg Chwefror, 2008 am 6.30pm. Argymhellwyd y dylai'r Cyng Charlotte Leadbeater fynychu.
4. Suzanna Van Eeghan, CSC yn gofyn am sylwadau'r Cyngor mewn perthynas â'r cytundeb sydd i'w gynnig i Mrs Hillier. Argymhellwyd y dylai'r lle manwerthu arddangos yr oriau agor yn glir, ac y dylid cadw at yr oriau hyn, a bod unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo parthed Llandeilo yn cael eu cadw a'u bod bob amser ar gael.
5. Suzanna van Eeghan yn hysbysu'r Cyngor o erthygl ar siopa yn Llandeilo sydd i'w gyhoeddi yn y Mail on Sunday ar y 13eg Ionawr 2008.
6. Gohebiaeth gan Cath Davies, gwasanaethau etholiadol yn nodi y gellid cyfethol Mrs Julia Jones ar y Cyngor hyd yn oed ei bod o fewn cyfnod o chwe mis tan ddiwedd y tymor mewn swydd. Cytunwyd ei argymell i'r Cyngor Llawn y dylid cyfethol Julia Jones ar y Cyngor.

Cof 236 Doedd yna ddim rhagor o fusnes.

Gofynnodd y Cyng Charlotte Leadbeater i'r cynigion parthed y Neuadd Farchnad gael eu rhoi ar yr agenda ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00pm